



*Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol  
Supporting voluntary and community groups*

## **Ailagor eich Cyfleuster Cymunedol**

***Gyda chyfyngiadau'n cael eu codi'n raddol, dyma ganllaw ar gyfer Ymddiriedolwyr, Pwyllgorau Rheoli a Swyddogion unrhyw gyfleuster cymunedol. Mae'n cynnig cyngor a syniadau defnyddiol ar gyfer paratoi eich cyfleuster cymunedol i agor os a phan fydd amgylchiadau'n caniatáu.***

***Nid yw'r canllaw hwn yn ddatganiad cyfreithiol awdurdodol a dylid ei ddarllen ar y cyd â holl ganllawiau swyddogol y Llywodraeth ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.***

### **1. Pwy sy'n Gwneud y Penderfyniad i Ailagor?**

*Yn y pen draw, penderfyniad i'ch ymddiriedolwyr neu'r rhai sy'n atebol yn gyfreithiol am eich mudiad yw sut a pha bryd i ailagor eich cyfleuster cymunedol. Fel lleiafswm, mae'n rhaid iddynt fedru dangos eu bod:*

- wedi meddwl o ddifrif am yr ystod lawn o bethau y mae angen eu hystyried er mwyn ailagor;
- yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol sydd mewn grym ar y pryd; ac
- yn cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol hyd eithaf eu gallu.

### **Dyma rai materion penodol fydd yn gofyn am eich sylw a'ch ystyriaeth:**

**Diogelwch** – Dylai diogelwch y rhai sy'n defnyddio'ch cyfleuster cymunedol, eich gwirfoddolwyr a'ch staff fod yn hollbwysig. Dylid ystyried yr holl fesurau diogelu sydd ar gael

**Yswiriant** – Ymgynghorwch â'ch yswirwyr ynglŷn â'r opsiynau rydych yn eu hystyried ar gyfer ailagor, gan ei bod yn bosibl y bydd ganddynt ofynion penodol y bydd angen ichi eu hystyried a gallai dilysrwydd eich yswiriant atebolrwydd cyhoeddus neu yswiriant arall fod yn amodol ar hyn

**Asesiadau Risg a Gweithdrefnau** – Mae'n hanfodol ichi adolygu a diweddarau asesiad risg eich adeilad a'ch cynlluniau gweithredu ynghyd â'u cofnodi, gan y gallai eich yswiriwr ofyn amdanynt pe bai hawliadau'n codi yn y dyfodol

**Amcanion elusennol** – Os ydych chi'n gwneud newid sylweddol i'r hyn a gynhigiwch, bydd angen ichi wirio a ydych yn dal i weithredu o fewn eich amcanion elusennol neu a oes angen ichi wneud trefniadau arbennig i'ch galluogi i wneud hynny

**Cadw cofnodion** – Argymhellir ichi wneud unrhyw benderfyniadau allweddol mewn cyfarfod rhithiol o'r ymddiriedolwyr/aelodau'r pwyllgor rheoli, gyda chofnodion/recordiad o'r cyfarfod i ddangos bod yr holl ystyriaethau perthnasol wedi'u hystyried wrth wneud y penderfyniadau

## 2. Camau Cynllunio

### Dynodi Swyddog Diogelwch COVID

#### Pwy ddylwn ei ddynodi?

*Dynodwch o leiaf un person o'ch Tîm Rheoli i weithredu fel Swyddog Diogelwch COVID.*

*Rhaid i'r person hwn:*

*fedru ymgysylltu ag amrywiaeth eang o aelodau'r gymuned a rhanddeiliaid,*

*cadw'n gyfredol â'r rheoliadau iechyd cyhoeddus diweddaraf, a*

*bod yn ganolbwynt ar gyfer eich paratodau ar gyfer ailagor.*

#### Gyda phwy y dylwn ymgysylltu?

*Wrth ichi gynllunio, mae'n hollbwysig bod ymddiriedolwyr neu'r rhai sy'n atebol yn gyfreithiol yn ymgynghori â'ch:*

- ❖ **Y gymuned leol, yn cynnwys defnyddwyr presennol** – mae eu diogelwch yn hanfodol bwysig. Bydd yn deg i'ch cymuned leol fod eisiau gwybod beth rydych yn ei wneud i'w cadw nhw'n ddiogel. Bydd angen ichi gyfleu'r newidiadau i'ch cymuned leol a'ch defnyddwyr presennol pan fyddwch yn penderfynu ailagor. Bydd ymgysylltu â nhw'n gynnar yn eu helpu i deimlo eich bod yn gwrando ar eu barn
- ❖ **Cymdogion** – ni ellir pwysleisio digon mor bwysig yw trin eich cymdogion gyda pharch. Peidiwch â gadael iddynt gael syrpreis o'ch gweld yn penderfynu ailagor a gweld pobl yn dod i'ch adeilad unwaith eto. Efallai y byddant yn poeni am effaith ailagor ar ledaeniad y feirws i weddill y gymuned, felly cadwch nhw'n hysbys am eich cynlluniau
- ❖ **Gwirfoddolwyr a Staff** – bydd angen ichi hyfforddi'ch gwirfoddolwyr a'ch staff i reoli'r adeilad a bod yn gyfarwydd â'r holl weithdrefnau newydd wrth ichi ailagor. Ymgysylltwch â'ch gwirfoddolwyr a'ch staff cyn gynted ag y gallwch, bydd hyn yn eu helpu i deimlo eich bod yn gwrando ar eu barn
- ❖ **Rhanddeiliaid Eraill** – Ymgysylltwch, pan fo'n briodol, gyda rhanddeiliaid eraill, e.e. yr awdurdod lleol, y cyngor cymuned, sefydliadau partner, a chadwch nhw'n hysbys am eich cynlluniau

## 3. Asesiad Risg

*Cynhaliwch Asesiad Risg ar eich adeilad er mwyn ystyried mesurau cadw pellter corfforol – fel cadw'r pellter cymdeithasol corfforol addas er mwyn osgoi unrhyw gyswllt corfforol diangen. Gallai hyn arwain at newidiadau sylweddol yn y ffordd y caiff eich adeilad ei ddefnyddio.*

***Cwestiynau allweddol i'w hystyried wrth gynnal Asesiad Risg newydd ac adolygu gweithdrefnau ar gyfer eich adeilad:***

- ❖ **Diogelwch** – Os yw'ch adeilad wedi bod yn wag/heb ei ddefnyddio ers wythnosau lawer ers i'r cyfyngiadau symud ddod i rym, cynhaliwch wiriad diogelwch trylwyr i chwilio am unrhyw dystiolaeth fod rhywun wedi torri i mewn, e.e. a yw eich drysau a'ch ffenestri'n sownd ac yn ddiogel? A yw larwm eich adeilad yn dal i fod yn gweithio?

- ❖ **Trefniadau Cyrraedd/Gadael** – Pa lwybrau mynediad ac allanfa fyddwch chi'n eu hailagor? Ydych chi wedi ystyried system unffordd? Sut fyddwch chi'n sicrhau nad oes torf o bobl yn ymgasglu ym mynedfeydd ac allanfeydd eich adeilad?
- ❖ **Peryglon tân** – A oes llanast diangen a allai fod yn rhwystr wrth wagio'r adeilad mewn argyfwng neu sy'n berygl tân?
- ❖ **Marcio'r lloriau** – Ystyriwch farcio gofod ar y llawr gyda thâp (i annog cadw pellter cymdeithasol) yn eich mynedfeydd a'ch allanfeydd ac yn eich prif ystafelloedd
- ❖ **Posterï a Hysbysïadau** – A yw eich posterï/hysbysfyrddau'n gyfredol? Pa wybodaeth newydd fydd angen ichi ei arddangos? Stopiau drysau – Ar gyfer drysau nad ydynt yn ddrysau tân yn unig, ystyriwch ddefnyddio stopiau drysau i gadw drysau ar agor i ddefnyddwyr basio trwyddynt heb gyffwrdd handlenni'r drysau
- ❖ **Trefniadau glanhau** – Pa mor aml fyddwch chi'n trefnu i'r lle gael ei lanhau, pwy fydd yn gwneud, ymhle a gyda pha offer?
- ❖ **Cymryd taliadau / cyfraniadau** – Allwch chi gyflwyno trefniant talu digyswllt ar gyfer taliadau / cyfraniadau? Allwch chi ddefnyddio llwyfannau cyfrannu ar-lein?
- ❖ **Mygydau wyneb/PPE** – Mae'n debygol y bydd yn ofynnol neu'n cael ei argymhell yn arw i ddefnyddwyr adeiladau wisgo mygydau wyneb, menig neu Gyfarpar Diogelu Personol arall. Sut fyddwch chi'n annog neu'n atgoffa defnyddwyr eich adeilad i wneud hyn?
- ❖ **Amseru** – Yn dibynnu pa gam o'r broses ailagor sydd dan sylw, sut wnewch chi gyfyngu ar yr amser bydd defnyddwyr yn aros yn eich adeilad? A ydych chi wedi ystyried amseroedd agor wedi'u trefnu am yn ail i leihau'r nifer o bobl yn eich adeilad ar unrhyw adeg?

#### 4. Capasiti

*Amcangyfrifwch eich 'capasiti newydd'. Bydd mesurau cadw pellter corfforol fel cynnal pellter penodol rhwng unigolion o wahanol aelwydydd yn lleihau capasiti eich adeilad yn arw. Mae cyfrifo 'capasiti newydd' eich adeilad yn hanfodol ar gyfer cynllunio ymlaen llaw.*

- ❖ Rhowch dreial i'ch prif ystafelloedd neu'ch neuaddau gyda'r mesurau pellter corfforol ar waith.
- ❖ Amcangyfrifwch y 'capasiti newydd' ar gyfer pob ystafell.
- ❖ Llif i mewn/allan – Sut wnewch chi gyfleu'r capasiti hwn a gorfodi'r cyfyngiadau capasiti a'r gofynion cadw pellter corfforol? Pa arwyddion newydd fydd eu hangen arnoch? (Gweler Rhan 5)
- ❖ Sut fyddwch chi'n hyfforddi eich gwirfoddolwyr/staff i annog defnyddwyr i gydymffurfio â'r trefniadau newydd? Lle wnewch chi gadw eich byrddau/cadeiriau dros ben?

#### 5. Offer

**Canfod pa offer newydd fydd ei angen arnoch: -**

- ❖ **Arwyddion/Rhwystrau** – Pa dâp, arwyddion neu rwystrau newydd fydd eu hangen arnoch?
- ❖ **Glanweithio** – A fyddwch chi'n darparu hylif glanweithio dwylo a hancesi wrth y mynedfeydd/allanfeydd?
- ❖ **Arferion glanhau** – pa fathau a symiau ychwanegol o nwyddau glanhau, diheintyddion ac offer fydd eu hangen arnoch? A ydych chi wedi amcangyfrif cost wythnosol y rhain?
- ❖ **Eitemau tafladwy** – A fyddwch yn defnyddio eitemau tafladwy fel gorchuddion bwrdd/gorchuddion lloriau yn eich neuaddau neu ystafelloedd eraill? Lle fyddwch chi'n cael

gwared ar y rhain? A oes gennych ddigon o gapasiti sbwriel/biniau i gadw'r gwastraff ychwanegol y byddwch yn ei greu?

## 6. Hyfforddiant

Unwaith y byddwch wedi penderfynu ar eich mesurau a'ch gweithdrefnau newydd, pa bryd a sut fyddwch chi'n hyfforddi eich gwirfoddolwyr a'ch staff? A ydyn nhw'n gwybod pwy yw'r Swyddog Diogelwch COVID dynodedig? A fyddwch chi'n ei gwneud yn ofynnol i'ch gwirfoddolwyr a'ch staff wisgo mwgwd wyneb/PPE fel mater o arfer cyffredin?

Beth fydd eich gwirfoddolwyr a'ch staff yn ei wneud i sicrhau nad yw torfeydd o bobl yn ymgasglu wrth fynedfaoedd neu allanfeydd? Os yw'n berthnasol, pwy yw eich Swyddog Diogelu? A ydyn nhw'n ymwybodol o'u dyletswyddau newydd yn unol â'ch mesurau a'ch gweithdrefnau newydd?

## 7. Casgliad

*Mae "normal newydd" ein cyfleusterau cymunedol am fod yn wahanol iawn i'r hyn rydym wedi arfer ag ef. Fel hyn y bydd pethau hyd y gallwn ragweld. I helpu gyda'r newidiadau hyn, mae'n bwysig eich bod yn cynllunio'n gynnar, yn ymgynghori'n eang, ac yn meddwl yn gyfannol wrth ailagor i'r cyhoedd; pan fydd yn ddiogel ichi wneud hynny, ac yn unol â rheoliadau iechyd cyhoeddus. Yn y pen draw, penderfyniad i ymddiriedolwyr neu'r rhai sy'n atebol yn gyfreithiol am y mudiad yw sut a pha bryd i ailagor. Mae'n hanfodol eich bod yn dynodi Swyddog Diogelwch COVID-19 penodedig, i roi canolbwynt i'r broses o newid. Mae'n bwysig nad ydych yn brysio'r penderfyniad i ailagor, a bod yr holl baratoadau, hyfforddiant a mesurau ar waith mewn da bryd. Mae gan ymddiriedolwyr gyfrifoldebau cyfreithiol sylweddol i gadw eu cyfleuster cymuned a'i ddefnyddwyr yn ddiogel.*

Am fwy o gymorth cysylltwch gyda Mantell Gwynedd

Swyddfa Caernarfon: 01286 672626

Swyddfa Dolgellau: 01341 422575

E-bost: [ymholiadau@mantellgwynedd.com](mailto:ymholiadau@mantellgwynedd.com)

[www.mantellgwynedd.com](http://www.mantellgwynedd.com)